OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 728 (Cy.64) (C.47)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2009

*Gwnaed - - - - 18 Mawrth 2009*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 40 a 44(3) a (5) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 1) (Cymru) 2009.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

### Y Diwrnod Penodedig

**2.** 6 Ebrill 2009 yw'r diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol y Ddeddf ddod i rym —

(a) adran 30 (symud y cyfyngiad ar wrando cais am ryddhau gorchymyn amddiffyn brys);

(b) adran 35 (estyn y cyfnod a ganiateir i wneud rheoliadau o dan adran 45 neu 46 o Ddeddf Plant 2004(**2**)); ac

(c) adran 42 ac Atodlen 4 (diddymu) i'r graddau y maent yn ymwneud â diddymu adran 45(9) o Ddeddf Plant 1989(**3**).

*Gwenda Thomas*
O dan awdurdod y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

18 Mawrth 2009

(**1**) 2008 p.23.
(**2**) 2004 p.31.
(**3**) 1989 p. 41.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn dwyn adrannau 30, 35 a 42 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 ac Atodlen 4 iddi i rym ar 6 Ebrill 2009 i'r graddau a bennir yn y Gorchymyn hwn.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dygwyd y darpariaethau a ganlyn o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 i rym o ran Cymru gan Orchymyn Cychwyn a wnaed cyn dyddiad y Gorchymyn hwn.

| *Darpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* | *O.S. Rhif* |
|---|---|---|
| Adran 31 | 1 Ebrill 2009 | 2009/268 (C.11) |
| Adran 32 | 1 Ebrill 2009 | 2009/268 (C.11) |